# Cyngor Sir Caerfyrddin| Carmarthenshire County Council

***Edrych yn fanwl ar oblygiadau'r systemau a ffiniau etholiadol a argymhellir gan y Panel Arbenigol ar gyfer cynrychiolaeth ddemocrataidd yng Nghymru, ac ystyried sut y gallai'r egwyddorion a nodwyd gan y Panel Arbenigol gael eu pwysoli i sicrhau bod trefniadau etholiadol y Cynulliad yn briodol i gyd-destun Cymru:**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi unrhyw newid a gyflwynir a fydd yn gwella cynrychiolaeth a chyfranogiad democrataidd; mater i Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad yw penderfynu pa systemau a ffiniau etholiadol sy'n cael eu mabwysiadu. Yr unig sylwadau/pryderon sydd gennym fyddai bod pecyn ymgysylltu cynhwysfawr Cymru gyfan yn cael ei roi ar waith o fewn amserlenni digonol i leihau'r dryswch i etholwyr Cymru gan fod pleidleiswyr yng Nghymru eisoes yn defnyddio sawl system etholiadol wahanol. Byddem hefyd yn gofyn bod Swyddogion Canlyniadau a'u staff yn cael digon o amser i gynllunio a darparu adnoddau'n effeithiol ar gyfer unrhyw newid etholiadol.

***Edrych ar ymdeimlad a dealltwriaeth y cyhoedd o drefniadau a ffiniau etholiadol cyfredol y Cynulliad a'r opsiynau a argymhellir gan y Panel Arbenigol:**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn llwyr gefnogi bod y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad yn edrych ar ymdeimlad y cyhoedd.

***Ystyried y goblygiadau i bleidiau gwleidyddol yng Nghymru o newid y system etholiadol a'r model ffiniau:**

Nid oes gan Gyngor Sir Caerfyrddin farn am y mater hwn. Fodd bynnag, hoffem bwysleisio ein cefnogaeth i sicrhau bod etholfraint llywodraeth leol yn cyd-fynd ag etholfraint Cynulliad Cymru.

***Edrych yn fanwl ar egwyddorion ac ymarferoldeb sefydlu trefniadau adolygu ffiniau ar gyfer ardaloedd etholiadol y Cynulliad:**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn llwyr gefnogi'r cynnig i edrych yn fanwl ar sefydlu trefniadau adolygu ffiniau ar gyfer ardaloedd etholiadol y Cynulliad. Rydym yn deall bod angen edrych yn fanwl ar hyn er mwyn sefydlu system etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol. Yr unig sylw sydd gennym yw y byddem yn croesawu cadw etholaethau San Steffan a'r Cynulliad yn gydffiniol gan ein bod yn credu nad yw gofyniad ar gyfer dwy set hollol wahanol o ffiniau etholaethol yn ddelfrydol ar gyfer pleidleiswyr.

**Ystyried y goblygiadau o ran cost ac adnoddau diwygio'r system etholiadol a ffiniau'r Cynulliad:**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn annog y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i ystyried sut y gall Swyddogion Canlyniadau a'u staff gynllunio a darparu adnoddau'n effeithiol ar gyfer unrhyw newid etholiadol.